Parent Partnership Service

# Proses Trawsnewid

# Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Mae'r ffordd y mae plant yn derbyn cymorth ychwanegol ar gyfer eu dysgu yng Nghymru yn newid. Bydd deddfwriaeth newydd, gan gynnwys Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Cod ADY, yn cael eu gweithredu dros gyfnod o dair blynedd, gan gychwyn ar 1 Medi 2021.

**Pwy fydd yn cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn?**

**O 1 Medi 2021**, bydd y system ADY yn cychwyn ar gyfer yr holl blant, hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10, y credir yn ddiweddar fod ganddynt, neu y nodwyd yn ddiweddar fod ganddynt, ADY ar neu ar ôl 1 Medi 2021, ni waeth sut y darperir eu haddysg. Cyfeirir at hyn hefyd fel anghenion sy'n dod i'r amlwg.

Hynny yw, plant nad oes ganddynt ddatganiad AAA, nad ydynt yn derbyn darpariaeth addysgol arbennig trwy gyfrwng Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy / Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, ac nad ydynt yn rhan o unrhyw broses datganiad AAA chwaith.

Mae'r system ADY yn cychwyn ar gyfer y plant hyn sydd newydd eu hadnabod waeth beth sut mae eu haddysg yn cael ei chyflwyno. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, blant sy'n mynychu ysgol a gynhelir, Uned Cyfeirio Disgyblion, meithrinfa annibynnol, ysgol annibynnol, sefydliad addysg bellach, neu blant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.

Yn ogystal â hyn, bydd y system ADY yn cychwyn ar 1 Medi 2021 ar gyfer unrhyw blentyn o oedran ysgol gorfodol sy'n cael ei gadw.

**O 1 Ionawr 2022**, bydd y system ADY yn cychwyn ar gyfer plant, hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10, sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig ar hyn o bryd trwy gyfrwng Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu Uned Cyfeirio Disgyblion, **ac** sydd ym Mlwyddyn 1 neu 2 meithrinfa neu Flwyddyn 1, Blwyddyn 3, Blwyddyn 5, Blwyddyn 7 neu Flwyddyn 10. Mae hyn yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad.

Bydd y Ddeddf ADY hefyd yn dod i rym, ar 1 Ionawr 2022, ar gyfer rhai plant sy'n newydd i'r system. Y grŵp hwn o blant yw'r rheiny a oedd ag AAA, neu a oedd yn rhan o broses datganiad AAA, ar 1 Medi 2021 ond nad oedd ganddynt AAA, neu nad oeddent bellach yn rhan o broses datganiad AAA, ar 1 Ionawr 2022. Mae'r ddeddf hon yn dod i rym i'r grŵp hwn o blant ni waeth sut y darperir eu haddysg.

**Beth am blant sydd â datganiad?**

Mae hyn yn golygu **na fydd** plant sy'n derbyn darpariaeth addysgol arbennig trwy ddatganiad AAA ar hyn o bryd, a'r rheiny sy'n derbyn rhyw fath o addysg ôl-16, yn cael eu cynnwys yn y flwyddyn gyntaf o weithredu.

**Beth yw ystyr anghenion sy'n dod i'r amlwg?**

Gellir disgrifio plant sydd newydd eu nodi fel rhai y mae posibilrwydd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol fel rhai sydd ag anghenion sy'n dod i'r amlwg. Mae'n bosibl i rieni, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, godi pryderon bod ADY gan blentyn. O fis Medi 2021, bydd unrhyw blant y codir pryderon bod ADY ganddynt yn cael eu hasesu a'u cefnogi trwy'r system ADY 'newydd'.

**Beth am God Ymarfer AAA Cymru?**

Yn ystod y cyfnod trawsnewid ADY, bydd y dysgwyr NA chynhwyswyd yn y grwpiau uchod, AC sydd eisoes wedi'u nodi fel rhai y mae ganddynt ADY, yn **parhau** i gael eu cefnogi gan y ddeddfwriaeth bresennol fel y'i nodir yn y Ddeddf Addysg a Chod Ymarfer AAA Cymru. Golyga hyn y bydd dwy set o ddeddfwriaeth yn rhedeg 'ochr yn ochr' â'i gilydd yn ystod y cyfnod trawsnewid o dair blynedd. Felly, bydd y dysgwyr sydd eisoes â datganiadau, ac nad yw'n rhan o'r grwpiau blwyddyn a nodwyd uchod, ac eraill, yn parhau i gael eu darpariaeth wedi'i diogelu a'u cefnogi gan y Cod AAA a'r ddeddfwriaeth bresennol.

**Yr hawl i ofyn am hysbysiad CDU**

Mae gan blant neu eu rhieni, hyd at ac yn cynnwys Blwyddyn 10, sy'n rhan o system Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy / Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ar 1 Ionawr 2022, sy'n mynychu ysgol a gynhelir neu Uned Cyfeirio Disgyblion, ac nad ydynt yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol neu nad ydynt wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad yr hawl i ofyn i'r ysgol neu'r Uned Cyfeirio Disgyblion eu symud i'r system ADY ar unrhyw adeg.

Gall plant neu eu rhieni wneud y cais am hysbysiad CDU naill ai ar lafar neu ar ffurf ysgrifenedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/anghenion-dysgu-ychwanegol-anghenion-addysgol-arbennig?_ga=2.5004915.1530407292.1633341644-1448129564.1629105878

**Partneriaeth Rhieni Sir Benfro**
pps@pembrokeshire.gov.uk
01437 776354
https://pembsinclusionservice.wales/cy/hafan/